DAVIES, HUGH (1739 - 1821), offeiriad, ac awdur Welsh Botanology

Enw: Hugh Davies
Dyddiad geni: 1739
Dyddiad marw: 1821
Rhiant: Lewis Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad, ac awdur Welsh Botanology
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Natur ac Amaethyddiaeth
Awdur: William Llewelyn Davies

Bedyddiwyd ef 5 Ebrill 1739 yn Llandyfrydog, sir Fôn, lle yr oedd ei dad, Lewis Davies, yn offeiriad. Yn 17 oed aeth i Goleg Peterhouse, Caergrawnt, lle y graddiodd. Bu'n offeiriad Llandegfan, sir Fôn, 1778-87, ac Aber, Sir Gaernarfon, 1787.

Cofir am Hugh Davies oblegid ei *Welsh Botanology ... A Systematic Catalogue of the Native Plants of Anglesey, in Latin, English, and Welsh...* (London, 1813). Yn ei ragair dywed yr awdur iddo ddioddef oddi wrth ryw anhwyldeb nerfau a'i gorfododd i roddi i fyny ei waith fel offeiriad a symud i Fiwmares i fyw. (Y mae trwydded yr esgob, Henry Williams, yn caniatáu iddo fod yn absennol o'i reithordy am ddwy flynedd, yn N.L.W. MS. 6666.) Rhoes gynhorthwy i Thomas Pennant gyda'i *Indian Zoology* a gyhoeddwyd yn 1790, y flwyddyn y gwnaethpwyd Davies yn gymrawd o'r Linnaean Society a oedd newydd gael ei ffurfio. Bu'n cynorthwyo llawer o naturiaethwyr eraill hefyd, yn eu mysg ei gyfaill William Hudson, awdur *Flora Anglica* (bu yn ymweld â Hudson yn Llundain yn 1792), Syr James E. Smith (*Flora Britannica*), a James Sowerby (*English Botany*). Yn N.L.W. MS. 6665 ceir rhai llythyrau a gafodd ef oddi wrth Smith a Sowerby ac oddi wrth naturiaethwyr eraill - Syr Joseph Banks, William Bingley, Lewis Weston Dillwyn, a Samuel Goodenough yn eu plith; yn yr un llawysgrif y mae llythyrau oddi wrth William Owen (-Pughe), David Thomas ('Dafydd Ddu Eryri'), etc. Ceir llythyrau a anfonodd Davies at Thomas Pennant, John Williams (Treffos, sir Fôn), a William Owen (-Pughe) yn N.L.W. MSS. 2594, 13221-4, a 14350. Anfonodd erthygl ('Four British Lichens') i ail gyfrol trafodion y ' Linnaean Society.' Dyfynnir o'i *Welsh Botanology* gan y Ffrancwr Alphonse de Candolle yn ei *Geographie botanique raisonnée...* (Paris, 1855). Cyhoeddodd hefyd bamffled, *Cyngor Difrif Periglor i'w Bluyfolion*, 1801, yn erbyn y Methodistiaid - a atebwyd yn 1802 gan Thomas Charles.

Bu farw 16 Chwefror 1821. Aeth ei gasgliad llysiau a phlanhigion i'r Amgueddfa Brydeinig.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn, 1930 a 1931

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops* (1929)

The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765 (1907–9), I, xxii, 98 n.

Oxford Dictionary of National Biography

NLW MSS 2594, 6665-6, 13221-4, 14350

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), pen. 38

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Hugh Davies

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 13809986

Wikidata: Q56170

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu